PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 8 | Chwefror 20, 2025 | 50c.

## Apêl Ffynhonnau Byw

Bydd yr apêl sydd ar y cyd rhwng Cymorth Cristnogol ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sef Ffynhonnau Byw yn cau ar ddiwedd mis Chwefror 2025.


Anfonwch eich holl gyfraniadau at Undeb yr Annibynwyr cyn gynted ag y bo modd. Diolch o galon am eich haelioni.



# *Y Bachgen a'r Wal*

## cyfrol am Balesteina yn Gymraeg

*Dyma erthygl gan y bardd rhyngwladol Menna Elfyn am gyfrol bwysig sydd ar gael i blant, ac i bawb, yn Gymraeg.*




Pan oeddwn yn blentyn yr hyn a glywn wrth sôn am y Nadolig oedd bod yr ŵyl ar ein *gwarthaf*. Methwn â deall pam yr oedden nhw'n dweud bod y Nadolig ar ei *gwaethaf*! Ie, i blentyn, roedd 'gwaethaf' yn air agosach o lawer ar dafod lleferydd na'r dywediad 'ar ein gwarthaf'. Hwyrach i mi, wrth feddwl am yr ŵyl eleni, deimlo pwl o'r 'gwaethaf' o gofio am y rhyfeloedd pell i ffwrdd – Wcráin a hefyd Gaza. Rhai sydd, er yn bell, rywsut sy'n camu'n agosach atom bob dydd gyda thrasiedïau sydd yn feunyddiol.

### Newyddion erchyll

Wrth i mi ysgrifennu hyn o eiriau, daeth y newydd am bump o newyddiadurwyr a laddwyd yn Gaza tra'u bod yn cysgu mewn cerbyd dros nos. Roedd un newyddiadurwr yn disgwyl clywed am enedigaeth ei blentyn cyntaf yn yr ysbyty gerllaw. Yn lle hynny, bydd ei wraig yn clywed am ei farwolaeth yntau wrth iddi eni neu wedi iddi eni ei blentyn. Bob wythnos, rydym yn credu na all pethau fynd yn waeth gyda'r rhyfel hyd yn oed os yw'r troseddau gwaethaf wedi eu cadw rhagom. Dyw'r newyddion ddim yn peidio â'n cyrraedd, naill ai yn araf deg neu gan newyddiadurwyr dewr sydd yn parhau i ryddhau i ni wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn Gaza ac ar y Llain Orllewinol. Sut mae modd i rywun ymateb yn gadarnhaol i'r hyn sy'n digwydd yno neu mewn sefyllfaoedd tebyg? Un ateb yw gwneud yr hyn a allwn. A rhannu storïau. Rhoi ar gof a chadw newyddion sy'n atgof o fywyd a'i gyfoeth. A chodi arian os medrwn. Dyma fi'n cofio am gyfrol go arbennig sef *Y Bachgen a'r Wal*.

### Lajee

Fel bardd Plant Cymru yn 2002-3 bûm mewn cysylltiad gyda chanolfan Lajee yn y Llain Orllewinol. Ystyr Lajee yw ffoadur, ac rown yn ymwybodol o'r ganolfan hon am iddi gael ei sefydlu gan y bobl ifanc gyda help rhai oedolion wrth gwrs. Tyfodd yn ganolfan a oedd yn cynnal gweithgareddau amrywiol i'r plant iau a'r plant hŷn. Hyd at yn ddiweddar, roedd y feithrinfa yn dal ar agor wedi i mi holi ei hynt o glywed am yr aflonyddwch yn y rhan honno o Balesteina. Tua'r un adeg, a heb gyswllt rhwng y naill beth a'r llall, cefais wahoddiad arbennig i fod yn rhan o ŵyl farddoniaeth fawr yn Tel Aviv. Dywedais y byddwn yn barod i ddod pe bawn yn cael mynd hefyd i ddwyrain Jerwsalem (roedd adeiladu sylweddol yn digwydd yno ar y pryd yn groes i Ddeddf Ryngwladol). Nodais hefyd y carwn ymweld â'r ganolfan ond dywedwyd wrthyf yn blwmp ac yn blaen nad oedd hynny'n bosib ond y cawn wyliau am ddim mewn lle braf ger y Môr Marw. Y Môr Marw o bobman! Gwrthodais y cais, a digio'r trefnwyr Iddewig am wneud hynny. A cholli'r unig gyfle i weld y rhan ryfeddol o'r byd yr oeddwn wedi darllen amdano gyhyd.

*mwy ar dudalen 2*





# Y Bachgen a'r Wal – parhad

### Cadw cysylltiad

Ond dyma barhau i gadw cysylltiad â'r ganolfan ac yna clywais eu bod yn siomedig am i wal enfawr gael ei adeiladu y tu allan i'r ganolfan. A dyna sut y daeth y syniad o ysgrifennu amdano i fodolaeth a'r plant yn llunio'r stori eu hunain. Stori swynol yw hi am blentyn yn dymuno gweld beth sydd y tu ôl i'r wal enfawr ac yn dychmygu y ffyrdd gwahanol o gyrraedd yno. Mae'n stori gynnil, gynnes am blentyn a' i fam. Pan ddechreuodd y rhyfel yn sgil gweithred erchyll Hamas, meddyliais y dylid cyhoeddi'r stori hon yn Gymraeg gan wneud hynny fel cofnod o ddychymyg plentyn Palesteinaidd. Ffordd arall o gofnodi yw ysgrifennu, gan roi rhywbeth ar gof a chadw, i'r oesoedd a ddêl.

### Allwedd

Amahl, sydd bellach yn Athro Anthropoleg, a arweiniodd y gweithdy i greu stori *Y Bachgen a'r Wal* gyda'r plant yn cyfrannu ati. Aeth ugain mlynedd heibio ers hynny, a'r plant bellach yn oedolion. Tybed ble maent erbyn hyn? A ydynt yn rhieni eu hunain? Un peth sy'n weddol sicr, mai prin yw'r rhai sydd wedi cael yr hawl i adael eu gwersyll yn Aida, Bethlehem a symud oddi yno, statws fel ffoaduriaid sydd iddynt. Ac mae'r wal yn parhau yno hyd yn oed os bu i'r ganolfan lwyddo i greu allwedd fel cerflun uwchben y ganolfan fel symbol o obaith am ryddid i'w gwlad. Dywedir mai'r cerflun hwn yw'r allwedd fwyaf yn y byd. Eironig o feddwl mor gaeth yw'r genedl sy'n ei gweld.

Dameg yw'r stori, fel y rhai y byddai'r Iesu yn eu hadrodd, a dyna pam y teimlaf elfen o reidrwydd a balchder o weld hon wedi ei hargraffu gyda'r elw yn mynd tuag at elusen sy'n parhau i weithredu ym Mhalesteina. Dyma destament go iawn, a phan ddeuai'r rhyfel i ben , byddai'r llyfr yn dal yn gofnod, yn rhan o hanes byw y plant hynny a'i lluniodd.

*Cyhoeddir y gyfrol mewn tair iaith, Arabeg, Cymraeg a'r Saesneg gwreiddiol, ei phris yw: £7.99. Mae ar gael o: sgema.cymru, gallwch anfon neges at post@sgema.cymru. Bydd yr elw'n mynd tuag at: SOS Children's Villages Palestine.*

# Diwrnod dros Gymru ar Ŵyl Ddewi




'Diwrnod i gasglu'r Eglwys ynghyd i *ddathlu*'r hyn y mae Duw yn ei wneud yng Nghymru, i *ennyn ffydd* yn yr hyn y gallai pob un ohonom ei wneud yng nghenhadaeth Duw trwy'n gwlad, ac *i alw ar Dduw* gyda'n gilydd.'

Dyna fydd bwriad digwyddiad ar faes y Sioe Fawr sy'n cael ei drefnu gan y mudiad Cant i Gymru ddydd Sadwrn, 1 Mawrth 2025, rhwng 10:00yb a 6:30yh. Estynnir gwahoddiad cynnes i ni fod yn rhan o'r digwyddiad cenedlaethol hwn sy'n cael ei gefnogi gan dros 20 o rwydweithiau Cristnogol yng Nghymru.

Bydd y digwyddiad yn un dwyieithog, gyda chyfieithu ar y pryd pan fydd y cyfraniad yn Gymraeg. Bydd dwy sesiwn yn Saesneg ac un yn Gymraeg, gyda'r Dathliad Gweddi i gloi'r dydd yn un dwyieithog dan arweiniad Owen Cottom ac Anna Hughes.

Braint fydd croesawu David Thomas o Asbury, Kentucky, atom, un oedd yn agos iawn at y tywalltiad o'r Ysbryd Glân yno ym mis Chwefror 2023. Ceir cyfraniadau eraill gan dîm Cant i Gymru ac arweinwyr eraill, fel Dr Rhiannon Lloyd, a rhai sy'n gwneud gwahaniaeth yng Nghymru a'r byd.

Bydd sesiynau ar wahân ar gyfer plant oed cynradd yn Gymraeg a Saesneg.

Pris tocyn: £15 i oedolion, â gostyngiad i rai 25 oed neu iau, neu os ydych yn archebu bloc o docynnau. Archebwch eich tocynnau'n fuan ar www.100.cymru, lle cewch fanylion llawn am y digwyddiad.

Bydd rhaglen y dydd yn cynnwys:

- 9:30 – drysau'n agor, addoliad dwyieithog
- Sesiynau gan arweinwyr o Gymru a thu hwnt
- Amser gweddi
- Cymdeithasu
- Gwaith plant Cymraeg a Saesneg yn cydredeg (bore a phrynhawn)
- 18:30 – diwedd y dydd



Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 20 2025 RHIF 208

# Capel gwledig yn croesawu partneriaeth eciwmenaidd newydd



Ym mhentref bach Llanwrthwl ym Mhowys ar 1 Chwefror 2025, cymerwyd cam eciwmenaidd pwysig ymlaen. Ymunodd Eglwys Sant Gwrthwl ac Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC) Penuel fel un gynulleidfa, a fydd yn addoli yn adeilad Penuel. Dyma'r Bartneriaeth Eciwmenaidd Leol newydd gyntaf i'w sefydlu ers rhai blynyddoedd o dan Ganon Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol yr Eglwys yng Nghymru. Mae hwn yn caniatáu i glerigion ac arweinyddion lleyg y ddau enwad weinidogaethu'n llawn i'r gymuned. Bydd gwasanaethau'r Sul yn y capel yn y dyfodol yn adlewyrchu'r ddau draddodiad.

Mewn atgof teimladwy o sefydlu'r capel cynulleidfaol gwreiddiol yn 1832, arwyddodd holl aelodau lleol y ddwy eglwys gyfamod lleol newydd. Mae'r cyfamod yn nodi sut y bydd yr eglwysi'n cydweithio, gan barchu'r ddau draddodiad ond yn barod i ymateb i alwad Duw ar y gynulleidfa. Fe'i hysgrifennwyd ar ôl llawer o ymgynghori rhwng yr eglwysi lleol ac arweinyddion enwadol.

Roedd y geiriau a ddefnyddiwyd wrth gyflwyno'r Cyfamod lleol yn seiliedig ar y Cyfamod ar gyfer Undod yng Nghymru, sy'n dathlu ei hanner canmlwyddiant eleni. Yn sgil yr addewidion a wnaed yn y cyfamod hwn rhwng yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a nifer o gynulleidfaoedd y Bedyddwyr yng Nghymru, cafodd Canon Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol ei basio gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn 2005. Gobaith partneriaid y Cyfamod yw y bydd y fenter hon yn Llanwrthwl yn ysbrydoli cymunedau eraill – trefol a gwledig – i gymryd camau gweladwy tuag at undod pobl Dduw.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y clerigwyr lleol: y Parchg Chris Coe a'r Parchg Robert Simpson; Archddiacon Aberhonddu, yr Hybarch Alan Jevons; Llywydd yr URC yng Nghymru, y Parchg David Salsbury a Swyddog Eciwmenaidd Cymru yr URC, y Parchg Martin Spain. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Gethin Rhys, Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru), a draddododd bregeth ysbrydoledig yn annog yr eglwysi i godi a byw yn ei chymuned.

Meddai'r Archddiacon, "Ar adeg pan glywn gymaint am ymrannu a gwrthdaro, roedd yn wych gweld Cristnogion yn cofleidio'i gilydd ac yn gweithio tuag at undod a harmoni."

Dywedodd Martin Spain, "Daeth y sbardun i ffurfio partneriaeth gan yr eglwysi lleol. Roeddent wedi bod yn cydweithio ers peth amser a phenderfynwyd y byddai trefniant mwy ffurfiol yn dda. Arweiniodd y penderfyniadau lleol at ffurfio Cyfamod, oedd yn gosod y sail i fod yn un gynulleidfa. Roedd y Cyfamod yn galluogi trefnu cytundeb i rannu'r adeilad a chyfansoddiad newydd. Mae modd gwneud!" Ychwanegodd Chris Coe, "Roedd heddiw yn ddiwrnod hanesyddol."

## Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 2–9 Awst 2025: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru **am 7.00 nos Fercher, 12 Mawrth, yng Nghapel y Groes, Wrecsam**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod eleni.

Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod mewn maes pwrpasol ar gyrion dinas Wrecsam, a hynny rhwng 2 a 9 Awst 2025, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/ uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau/ thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau'r oedfa ar fore Sul agoriadol yr Eisteddfod.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

# Dydd Gweddi'r Byd 2025




Eleni, ar 7 Mawrth, bydd pobl o gwmpas y byd yn ymuno i weddïo mewn gwasanaeth sydd wedi cael ei baratoi gan ferched Cristnogol o Ynysoedd Cook ar y thema 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol'. Mae Ynysoedd Cook yn cynnwys 15 ynys wedi'u gwasgaru dros 2 filiwn cilometr sgwâr o fewn y Cefnfor Tawel. Yn 2021 dathlwyd 200 mlwyddiant dyfodiad Cristnogaeth i'r ynysoedd drwy genhadon o Gymdeithas Genhadol Llundain. Erbyn heddiw mae dros hanner y boblogaeth yn perthyn i eglwysi Cristnogol.

Ar sail geiriau'r thema o Salm 139, ac wedi eu gwau o fewn storïau tair merch Gristnogol, mae'r gwasanaeth o addoliad yn ein gwahodd i gydnabod bod Duw wedi creu pob un ohonom â gofal a chariad, ein bod yn unigryw ac yn arbennig. Dywedant:

> Mae Duw yn ein hadnabod yn bersonol ac rydyn ni'n arbennig i Dduw am ein bod yn unigryw. Pan fyddwn yn agor drysau ein calonnau i'r gwirionedd hwn, mae popeth yn ein bywyd yn newid. Rydym yn gynnes y tu mewn ac yn dechrau trin pobl eraill fel plant annwyl i Dduw. Drwy'r gwasanaeth hwn gobeithio y bydd pobl yn cael eu dyrchafu'n ysbrydol wrth iddyn nhw ddod i ymddiried yng nghariad mawr Duw.

Os nad yw eich capel chi wedi ymuno yn y Dydd Gweddi o'r blaen, beth amdani eleni? Mewn sawl ardal mae capeli/eglwysi yn dod at ei gilydd i gynnal gwasanaeth. Mae adnoddau deniadol (am ddim) ar gael ar gyfer cynnal y gwasanaeth. Paratowyd taflen sy'n cynnwys y gwasanaeth llawn, yn ogystal â chyflwyniad PowerPoint. Mae gwybodaeth am Ynysoedd Cook hefyd ar gael ar ffurf PowerPoint a sgript. Yn ogystal, mae yna daflen Gweithgareddau Plant.

Mae gan Ddydd Gweddi'r Byd bwyllgor yma yng Nghymru, a'r pwyllgor hwn sy'n gyfrifol am baratoi'r deunydd Cymraeg yn ogystal â dosbarthu grantiau ariannol bach ar gyfer gweithgaredd Cymraeg er hybu Cristnogaeth (e.e. cynhyrchu deunydd Cymraeg gan eglwysi, deunydd i annog addoliad ac ar gyfer ehangu gwaith Ysgolion Sul). Ni roddir grant tuag at gynnal a chadw adeiladau ac ni ellir gwarantu y dyfernir grant.

Am ffurflen grantiau neu fwy o wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am grant, cysylltwch â Mrs Margaret Morgan (trysorydd) ar 07753 195018 neu margaretmaudmorgan@gmail.com. Y dyddiad cau i dderbyn cais yw diwedd mis Mawrth. Rhoddir ystyriaeth i'r ceisiadau ym mis Ebrill a bydd pob cais llwyddiannus yn derbyn siec ym mis Mehefin.

Am fwy o wybodaeth ac i archebu adnoddau, cysylltwch â'r ysgrifenyddion: Eirian Roberts eirian.roberts@ebcpcw.cymru neu Sarah Morris sarah.morris@ebcpcw.cymru.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Gweithiwr Cymunedol (Rhan amser)

### Wedi ei leoli yn ne Wrecsam

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, yn chwilio am arloeswr Cristnogol gyda gweledigaeth.

Rydym yn bwriadu dechrau gwaith newydd o amgylch pentrefi a threfi yn ne Sir Wrecsam. Y nod yw galluogi cenhadaeth Gristnogol a hyrwyddo tystiolaeth Gristnogol, yn bennaf drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn cyd-destun dwyieithog.

Mae'r Henaduriaeth yn agored i drafodaethau ag unigolion sydd â galwad glir ynglŷn â sut y dylid gweithredu'r gwaith hwn a sut y gallant ei gefnogi. Dylent fod yn unigolyn brwdfrydig ac ysgogol i arwain gwaith newydd.

**Oriau:** 21 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
**Cyflog:** Band 31–35 (£32,150–£34,043 pro rata) ar raddfa gyflog EBC. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
**Lleoliad:** Lleolir y swydd hon yn ardal de Wrecsam, a thrwy weithio o gartref.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn – 02920 627465

**Dyddiad Cau: 21ain Mawrth 2025 am 4 o'r gloch y prynhawn**

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 23 Chwefror, am 7.30yh – Mis Hanes LHDTC+**
Bydd Nia Roberts ar Ynys Môn i nodi Mis Hanes LHDTC+ yng nghwmni'r dramodydd a'r llenor Gareth Evans-Jones. Daw'r canu mawl o Gapel Mawr Amlwch dan arweiniad Trystan Lewis. A chawn berfformiad arbennig o Gapel Coffa John Elias, Llangefni.


BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 23 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Karl Davies

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 23 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Aled Lewis, Pontrhydfendigaid

## *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 7: Myfyrdod**

**Llyfr y Pregethwr 3:10–22**

Yn dilyn y gerdd am amser y mae'r Pregethwr yn myfyrio ymhellach ar bwysigrwydd gwneud popeth yn ei bryd. Mae'n gofyn y cwestiwn unwaith eto, "Beth mae'r gweithiwr yn ei ennill ar ôl ei holl ymdrech?" (3:9), gan ateb ei gwestiwn ei hun, yn fwy calonnog y tro hwn na'r tro diwethaf yn 1:13. Yma etyb gan ddweud, "Mae Duw'n gwneud i bopeth ddigwydd yn berffaith ar yr amser iawn" (3:11). Un o'r pethau anodd gyda'r llyfr hwn yw rhoi'r cynnwys yng nghyd-destun Duw a Christnogaeth. Beth yw agwedd yr awdur at Dduw mewn gwirionedd? Arwyddocaol felly yw ei fod yn enwi Duw yma bump o weithiau mewn chwe adnod (3:10–15). Yn yr adnodau hyn mae'n ein harwain i ystyried y modd y mae Duw yn llywodraethu dros ein bywydau gan roi bendithion lu. Yn y cyd-destun hwn y mae Duw wedi trefnu'r cwbl sy'n angenrheidiol ar gyfer y ddynoliaeth; nid hap yw sylfaen ein bodolaeth. Ond ar yr un pryd, mae Duw yn creu rhwystredigaeth trwy ein hamddifadu o'r gallu i ddirnad ei ewyllys a deall yr hyn a ddigwydd yn y presennol (3:11).

**Diorffwys**

Credaf fod y cymal hwn, "rhoddodd dragwyddoldeb yng nghalonnau pobl" (3:11; BCND), yn un o'r rhai mwyaf arwyddocaol yn Llyfr y Pregethwr. Dywedaf hyn oherwydd ei fod yn rhoi rheswm am y dyhead sydd yng nghalonnau pobl am yr ysbrydol ac am berthynas gyda Duw. Yn ein hoes anghrediniol gyfoes ni mae syched o hyd am fwy na'r materol. Ynom mae syched na all materoliaeth ei ddiwallu. Mae Duw wedi ein creu ar gyfer tragwyddoldeb ac oni bai fod yr angen hwnnw sydd ynom yn cael ei fodloni, rydym yn anghyflawn yn barhaus. Fel y dywedodd Awstin Sant mor afaelgar yn ei gyffesion, "Diorffwys ydym hyd nes y gorffwyswn ynot ti."

Gwyddom eisoes fod y Pregethwr yn barod iawn i gydnabod nad oes ganddo atebion i gwestiynau dyrys bywyd. 'Pwy a ŵyr?' yw un o'i ddywediadau mwyaf cyffredin. Ond cawn yma ddwy enghraifft o'r hyn y mae'n ei wybod. Gwnawn yn fawr ohonynt. Gŵyr ei bod yn bosibl mwynhau bywyd am mai dymuniad Duw yw bod pawb yn llwyddo ac yn ffynnu. Felly, dyletswydd dynion yw ufuddhau i'r ewyllys dwyfol a bod yn llawen trwy fwyta ac yfed a chael pleser yn eu llafur (3:12–13).

**Anghyfiawnder**

Ond wedi paragraff cymharol gadarnhaol mae'r awdur unwaith eto'n syrthio i bydew dryswch. Y tro hwn mae'n tafoli un o athrawiaethau creiddiol crefydd yr Iddew, sef cyfraith cosb a gwobr. Dyma'r syniad fod tynged pob unigolyn yn dibynnu ar ei weithredoedd. Mewn sgwrs ag ef ei hun, mae'n rhoi llais i'r syniad y bydd Duw'n barnu'r 'cyfiawn a'r drygionus' ymhen hir a hwyr, fel y dywed Cyfraith Moses (gw. e.e. Exodus 34:6–7). Ond gan fod 'drygioni wedi cymryd lle barn a chyfiawnder' (Pregethwr 3:16), chwelir ei obeithion o weld y naill yn cael ei achub o grafangau'r llall yn y byd sydd ohoni.

Mae ei brofiad o fywyd wedi'i amddifadu o neges hyderus y proffwydi fod y byd yn gyfiawn, ac o gred ei gyfoedion y caiff y ffyddloniaid eu gwobr yn y byd a ddaw. Hyd y gwêl ef, mae bywyd yn llawn arwyddion fod y cyfiawn yn dioddef ar gam a'r anghyfiawn yn osgoi cosb.


**Suddo'n ddyfnach i'r pydew**

Nid yw'r Pregethwr yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng tynged pobl ac anifeiliaid: 'Y mae'r naill fel y llall yn marw. ... Y maent i gyd yn mynd i'r un lle' (3:19–20). Ac am mai 'yr un anadl sydd ynddynt', a'u bod yn dychwelyd i'r llwch (gw. Genesis 3:19), nid yw'n gweld fod 'gan neb dynol fantais dros anifail' (Pregethwr 3:19). Dyma syniad gwahanol iawn i'r hyn a geir yn Genesis 1 a Salm 8. Ond y mae tynged yr 'ysbryd', neu'r 'anadl einioes' a roddodd Duw i ddyn ac anifail (gw. Genesis 2:7; 7:15) ar ôl marw, yn ddirgelwch llwyr (Pregethwr 3:21).

Wrth ddirwyn ei fyfyrdod ar anghyfiawnder bywyd i ben, mae'r awdur yn gwneud un pwynt arall. Iddo ef, mae'r ansicrwydd ynghylch tynged y ddynoliaeth wedi marwolaeth yn pwysleisio gwerth y presennol. Yn wyneb troeon yr yrfa, mae'n ailadrodd ei gyngor i ddyn 'fwynhau ei hun yn ei waith', gan gofio mai rhodd Duw yw'r gallu i gael pleser mewn bywyd. Nid oes dim byd gwell yn debygol o ddod i'w ran (3:21).

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Trafodwch beth yw ystyr ac arwyddocâd y geiriau "rhoddodd dragwyddoldeb yng nghalonnau pobl' (3:11).
2. A yw pobl ac anifeiliaid yn gyfwerth â'i gilydd?
3. A yw Duw yn cosbi'r drwg?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Y ffrwd fechan

Bydd pawb sy'n fy nabod yn gwybod mod i'n hoffi dewis cyflymdra hwyliog wrth gyfeilio i emynau, ac yn bersonol, rwy'n teimlo bod canu bywiog, llawn angerdd, yn ychwanegu llawer lawn at naws addoliad. Hyd yn oed os byddwn ni'n canu emynau dwys, gallwn ni eu canu'n araf heb lusgo.

Mae pwysigrwydd hynny'n fy nharo'n arbennig wrth bori trwy rai o'r emynau yng *Nghaneuon Ffydd*, os ydyn ni o ddifri am yr hyn sydd yn yr emynau hynny, dylai fod yn amhosib canu geiriau fel 'Bywha dy waith, O Arglwydd mawr, Iachawdwr mawr y byd, bywha dy waith' heb wneud hynny mewn modd egnïol, ysbrydoledig. Os ydyn ni o ddifri am gael ein bywhau a'n defnyddio gan yr Ysbryd Glân, mae angen ni ddangos ein bod ni'n barod am hynny, nid dim ond dweud y geiriau.

Pan ddaw'r Ysbryd Glân, fydd gennym ni'r momentwm i fynd gyda'r grym dwyfol a chyflawni'r hyn sydd mewn golwg ar ein cyfer, neu a fyddwn ni'n llesg ac yn llusgo traed? Canodd Elfed 'gwna ein crefydd fel ein cân', ond mae angen i'n canu, fel rhannau eraill o'n bywyd ysbrydol, ddangos fod gennym yr egni, y brwdfrydedd a'r awydd i symud ymlaen a gweithredu.

Efallai bod hyn yn arbennig o bwysig ar drothwy tymor y Grawys – yn ogystal ag edifarhau am ein beiau, mae angen i ni fod yn barod i Dduw gydio ynom a'n newid, fel ein bod yn dod yn gyfryngau bywiol, llawn egni yn ei law. Yn Salm 51 darllenwn:





Bwrlwm

NEWYDDION CAPEL Y NANT, CLYDACH

Rhif 173, CHWEFROR 2025

Capel y Nant, Heol y Nant, Clydach, Abertawe SA6 5HB

Cofiwch ymweld â gwefan Capel y Nant: www.capelynant.org

Nawr bydda' i'n gallu gorwedd i lawr a chysgu'n dawel, am dy fod Ti, o Arglwydd yn fy nghadw'n saff
Salm 4:8

Cydymdeimlo (t.3)
Elusennau (t.4)
Nadolig (t.5)
Llongyfarchiadau Gwresog (t.6)
Cytûn a Chymorth Cristnogol (t.7)

Cylchlythyr misol Capel y Nant
Newyddion
Cyhoeddiadau
Hanes aelodau

> Gad i mi brofi'r wefr eto o gael fy achub gen ti; a gwna fi'n awyddus i fod yn ufudd i ti.

Neu i ddyfynnu emyn Dan Lynn James, 'Ti rydd foliant yn y fynwes, rhoddi'r trydan yn y traed.'

Gwych o beth fyddai i ni dreulio'r Grawys eleni yn gweddïo am gael teimlo'r wefr honno, a hynny'n gryfach nag erioed.

**Fiona Gannon**
(allan o *Bwrlwm, Capel y Nant*, Chwefror 2025)

# Dyrinos ...
## David Clement Dyrinos Thomas

*Dyma deyrnged a dalwyd i Dyrinos Thomas gan y Parchg Owain Llŷr Evans, Minny Street.*

### Dechreuwn gyda David: Dafydd y bugail frenin

Y Parchedig David Clement Dyrinos Thomas, Aberhonddu, Llanerfyl a'r Foel a Phont-iets. Ymadawodd Dyrinos â'r weinidogaeth lawn amser yn ôl, ym 1967, gan ddilyn gyrfa wedyn fel gwas sifil yn y Swyddfa Gymreig 58 mlynedd yn ôl. Digon o amser i bobl ei ofal i anghofio, 58 mlynedd siŵr o fod. Na, nid yw 58 mlynedd yn ddigon i bobl anghofio gweinidog da, gweinidogaeth naturiol ac annwyl, a phregethwr coeth a chyfoes: yn y rhifyn cyfredol o *Plu'r Gweunydd*, sef papur bro Llangadfan, Llanerfyl a'r Foel mae yna gofnod o farw Dyrinos. Cofnodir diolch am ei weinidogaeth, nodir enw'r plentyn cyntaf iddo fedyddio, Mair Pentrebach, a'r dyddiad, 15 Medi, y Sul cyntaf wedi ei ordeinio a'i sefydlu, chwe deg pedair blynedd ers iddo adael yr ardal, mae'r bobl yn dal i gofio.

Nawr, buasai Dyrinos yn anfodlon iawn, iawn ar y fath yma o siarad. Y mae pawb a'i hadnabu wedi sôn am ei ostyngeiddrwydd mawr, ond buasai Dyrinos hefyd yn anfodlon iawn, iawn ein bod yn cydio'r ansoddair 'gostyngedig' wrth ei enw. Pam? Nid yw'r person gwir ostyngedig yn sylweddoli ei fod yn ostyngedig, ac yr oedd hynny'n wir am Dyrinos. Yn eglwys Minny Street, Caerdydd, am flynyddoedd hir a da, bu'n aelod parod ei wasanaeth i'r eglwys, ar draws holl ystod ei gweithgarwch hi bron iawn: o'r pwyllgor bugeiliol i'r gymdeithas ddrama. Bu'n barod ei gymorth i'w weinidog.

Mae pob perchen ffydd yn gwybod mai hawdd ddigon yw dilyn Crist; yr anhawster yw dilyn ei ganlynwyr, ond gwyddom hefyd fel y bu i Dyrinos, un o bobl Crist amlygu gorau Crist, nid gwaethaf pobl Crist.

Dafydd; y bugail frenin. Euros a Carwyn, er mai'r un yw trefn a dodrefn eich bywyd, ni fydd pethau'r un fath heb eich tad, collwyd darn o gadernid eich byw; ond daethom ynghyd i'r lle hwn i sefyll gyfysgwydd â chi, i ddiolch, gyda chi na ddaw stŵr na berw'r byd i ymyrryd mwy ar Dyrinos, tad a fu fel brenin i chi. A ninnau, ei gyd-aelodau fan hyn, cyd-aelodau Aelwyd Hamdden, Caerdydd a sawl cymdeithas arall, y ffordd orau i ni ei gofio'n deilwng yw ymroi i efelychu'r gorau ohono.

### Clement ...

Mae tywydd braf yn hyfryd a mwyn. Gallwch ddisgrifio min nos hafaidd gynnes fel braf. Mae 'clement' yn enw gwrywaidd gyda tharddiadau o'r ieithoedd Lladin a Ffrangeg. Mae'n cyfieithu fel 'trugarog' a 'mwyn'. Roedd natur hoffus, annwyl yn Dyrinos ac roedd ei natur garedig yn gwneud iddo ddeall pobl, roedd yn ei wneud yn drugarog.

Yn ei ddull barddonol, mae llyfr Genesis yn disgrifio gwaith y creu: y ffurfafen a'r sêr, yr oll sy'n tyfu a'r oll sy'n anadlu. Mae pob diwrnod yn cloi gyda'r ddedfryd fer, 'ac roedd yn dda.' Nid yw'r farn hon yn unrhyw syndod. Mae'n wirionedd sylfaenol a hanfodol o'n ffydd bod Duw yn dda. Pam felly mae'r Beibl yn mynd i'r fath raddau i nodi'r gwirionedd amlwg?

*parhad ar y dudalen gefn*

# Golygyddol

## Celu gwirionedd

Yn ddiweddar rwyf wedi bod yn darllen am hanes Rwmania. Y prif reswm am hynny yw bod fy mab wedi priodi merch o Rwmania. Sylweddolais yn fuan na wyddwn unrhyw beth am ei chenedl. Felly, dyma fwrw ati i wneud y cwrs Rwmaneg ar Duolingo ac yr wyf ar hyn o bryd yn darllen *History of Romania*. Agorwyd fy llygaid i'm hanwybodaeth. Ni wyddwn nemor ddim am ddiwylliant, hanes crefyddol na hanes gwleidyddol y cenhedloedd yn nwyrain Ewrop. Yno, fel ym mhob man arall hyd y gwelaf i, y mae'r hanes trwy'r canrifoedd yn gythryblus a threisgar ac o bair gwrthdaro a thyndra y gorffennol fe esgorwyd ar y cenhedloedd sydd yno yn bresennol. Datblygiad cymharol gyfoes yw hyn. Cyn hynny roedd yr ardal yn ferw gwyllt o dywysogaethau ac ymerodraethau a gwrthdaro ac yn ymladd am rym. Yn Rwmania bu ymgiprys am oruchafiaeth rhwng Rhufain, yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr Eglwys Uniongred Ddwyreiniol, Yr Otomaniaid, Hwngari a'r Habsburgiaid. Heb sôn am yr hanes mwy diweddar. Daeth Romania yn y diwedd i fodolaeth trwy uno tair tiriogaeth, Wallachia, Maldafa a Thransylfania. Ond bu'n daith ddyrys.

### Uniongrededd

Ym 1701, er mwyn cael goruchafiaeth wleidyddol a sefydlogrwydd yn y tywysogaethau amlethnig fe ddaeth archesgob Catholig Rhufeinig Hwngari ac Esgob yr Eglwys Uniongred Rwmanaidd i gytundeb â'i gilydd. Fel rhan o'r cytundeb roedd yr offeiriaid Uniongred Rwmanaidd i dderbyn y Pab yn Rhufain fel pen yr eglwys a bu cyfaddawdu ar rai materion diwinyddol pwysig. Golygodd hyn fod y diwylliant Gorllewinol yn llawer mwy dylanwadol yn Nhransylfania. Ond yr hyn sy'n syfrdanol yw bod yr arweinyddion Uniongred wedi gwrthod dweud wrth y werin fod y cytundeb hwn wedi ei lunio oherwydd eu bod yn ofni gwrthryfel. Roedd Uniongrededd nid yn unig yn rhan o'u hetifeddiaeth ond hefyd yn elfen bwysig o'u hunaniaeth. O ganlyniad ni wyddai'r bobl gyffredin fod y cytundeb yn bodoli oherwydd nad oedd neb yn fodlon dweud wrthynt. Dim ond ym 1744, bron i hanner canrif yn ddiweddarach, y clywodd y werin y gwir. Penderfynodd mynach Uniongred Serbaidd o'r enw Visarion Sarai rannu'r gwirionedd am gyfaddawd mawr yr



arweinyddion Uniongred gyda Rhufain. Bu ymateb y werin i'r newyddion yn chwyrn ac mewn rhai pentrefi bu ymosodiadau treisgar wrth iddynt fynnu bod yr awdurdodau yn dychwelyd at Uniongrededd Dwyreiniol.


### Llwydwirionedd

Mor rhwydd yw twyllo pobl trwy beidio dweud y gwir, neu drwy beidio dweud yr holl wir wrthynt. Heddiw rydym yn byw mewn cyfnod dryslyd yn wleidyddol lle mae pobl eto yn cael eu twyllo gan wleidyddion poblyddol asgell dde sy'n honni fod ganddynt y gallu i weddnewid bywydau pobl ac i wella eu sefyllfaoedd ond iddynt gael eu hethol. Epil Trump a Farage yw'r rhain sy'n creu bychod dihangol o'r arall, yn fewnfudwyr, cenhedloedd dieithr, a chreant elynion i'w casáu a'u hofni. Ond addewidion gwag a pheryglus yw eu rhethreg oherwydd yn y bôn nid oes unrhyw sylwedd na chynllun i'w honiadau hunanhyderus. A chyda'r holl gyfryngau sydd ar gael bellach i gyfathrebu y mae'n haws twyllo pobl trwy hau celwyddau a llwydwirioneddau.

Rhaid i ni fel Cristnogion fod ar ein gwyliadwriaeth yn ddiwinyddol ac yn wleidyddol rhag i bobl, a ninnau yn eu plith, gael ein twyllo gan feddylfryd celwyddog, materol, hiliol a hunandybus, sy'n seiliedig ar ddichell y goludog breiniol. Mae hyn wedi digwydd drwy'r canrifoedd. Mae hyn yn digwydd nawr yn America ac yma yng ngwledydd Prydain trwy gyfoethogion llwgr a chwmnïau gwleidyddol fel Reform sydd am droi'r dŵr i'w melinau eu hunain.

> 10 Ydw i'n mynd i anwybyddu'r
> trysorau a gawsoch drwy dwyll,
> a'r mesur prin, sy'n felltith?
> 11 Fyddai'n iawn i mi oddef y clorian
> sy'n dweud celwydd,
> a'r bag o bwysau ysgafn?
> 12 Mae'r cyfoethog yn treisio'r tlawd,
> a'r bobl i gyd yn dweud celwydd –
> twyll ydy eu hiaith gyntaf nhw!
> Micha 6: 10 12

**Alun Tudur**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dyrinos … – *parhad*

Mae'n bosibl nad sylw ar ansawdd gwaith Duw yw ailadrodd y geiriau 'ac roedd yn dda' ond ei bwrpas. Ddim ei sgìl wrth greu pethau ond ei bwrpas wrth wneud hynny. Creodd Duw'r bydysawd fel y gallai ei lenwi a'i ddaioni. Roedd yn ein creu ar ei ddelw ei hun fel y gallwn wneud daioni fel y gwnaeth Efe. Wrth i ni gofio Dyrinos heddiw, gallwn ddysgu rhywbeth oddi wrth y ddedfryd dduwiol o greu, yn fwy pwysig na bod yn dda wrth wneud rhywbeth yw bod yn dda i rywun. Roedd Dyrinos yn dda wrth wneud nifer o bethau ond nid y pethau roedd yn eu gwneud rydym o ddifrif yn eu dathlu ac yn diolch i Dduw amdanyn nhw heddiw ond ei fod yn ddyn da, ei fod yn dda i'w ffrindiau, yn dda i'w deulu, yn dda i Carwyn, Euros, yn dda i Tracey a Carryn. Ynddo, gwelsom y daioni tirion a thrugaredd tawel ac am hyn diolchwn i Dduw amdano heddiw.

Roedd Sant Clement yn bodoli, nawddsant gofaint. Mae gofaint yn llunio ac yn uno metel drwy ei gynhesu mewn gefail hyd nes ei fod yn feddal ac yn ystwyth. Yna, maen nhw'n ei daro, ei blygu ac yn torri'r metel i ryw ffurf cyn iddo oeri eto. Weithiau, mewn bywyd, gorfodir ni i wneud mewn profiad anodd – caled fel metel – yn rhywbeth da defnyddiol: roedd Elisabeth Joye yn rhan bwysig iawn o fywyd Dyrinos. Roedd ei cholli'n golled fawr iddo fel morthwyl, roedd ei hiraeth yn drwm iawn. Roedd yn gweithio metel caled ei hiraeth gan wneud rhywbeth cryf a defnyddiol ohono, digon cryf a digon defnyddiol i fagu dau fab da, i fyw bywyd yn dda a chywir heb orchuddio ei hun mewn surni a chwerwder. Haearn a hoga haearn. Mae gan bob sant arwydd, arwydd Clement yw angor. Anodd dechrau deall beth oedd Dyrinos yn mynd trwyddo'r cyfnod hwnnw wedi colli Betty, ond daliodd, mewn ffydd, yn dynn dynn wrth ei Arglwydd, 'gan wenu ar ei stormydd oll.' Gydag amser, gan mai sicr oedd ei angor, daeth Dyrinos yn ddiogel drwy'r storm; a mwy hyd yn oed na hynny, daeth â'i feibion hefyd yn ddiogel i'r lan.

*bydd rhan dau o'r erthygl yma yn y rhifyn nesaf*


# Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2025

Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Canolfan Nant Gwrtheyrn
25–27 Mehefin

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 9 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.







*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*